## SCHEDULE 1

Article 2

## SOCIAL SERVICES INDICATORS

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS1 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. | The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population aged 75 or over. |
| NS2 | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd): | The rate of older people (aged 65 or over): |
| | (a) (a) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth; a | (a) (a) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31 March; and |
| | (b) (b) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | (b) (b) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March. |
| NS3 | (a) (a) canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda Chynllun Gofal ar waith; a | (a) (a) the percentage of first placements of looked after children during the year that began with a Care Plan in place; and |
| | (b) (b) ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod ar ôl 4 mis) i fod wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, y ganran gyda chynllun ar gyfer sefydlogrwydd adeg y dyddiad priodol. | (b) (b) for those children looked after whose second review (due at 4 months) was due in the year, the percentage with a plan for permanence at the due date. |
| NS4 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd | The percentage of children looked after at 31 March |

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| | â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | who have experienced one or more change of school, during a period or periods of being looked after, which were not due to transitional arrangements, in the 12 months to 31 March. |

SCHEDULE 2

HOUSING INDICATORS

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS5 | (a) (a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfyngau; a<br>(b) (b) Cyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob teulu digartref gyda phlant wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast. | (a) (a) The number of homeless families with children who have used bed and breakfast accommodation during the year, except in emergencies; and<br>(b) (b) The average number of days all homeless families with children spent in bed and breakfast accommodation. |
| NS6 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwydydd a geir yn statudol ddigartref. | The average number of working days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless. |
| NS7 | Cyfartaledd nifer yr unedau cymorth sy'n ymwneud â thai fesul 1000 o'r boblogaeth, ar gyfer pob un o'r mathau canlynol o wasanaeth cymorth sy'n ymwneud â thai:<br>(i) cymorth fel y bo'r angen;<br>(ii) mynediad uniongyrchol; | The average number of units of housing-related support per 1000 population, for each of the following types of housing related support service:<br>(i) floating support;<br>(ii) direct access; |

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| | (iii) llety dros dro; | (iii) temporary accommodation; |
| | (iv) llety parhaol; | (iv) permanent accommodation; |
| | (v) llety gwarchod i bobl hyn; a | (v) sheltered accommodation for older people; and |
| | (vi) gwasanaethau larwm cymunedol. | (vi) community alarm services. |

SCHEDULE 3

EDUCATION INDICATORS

| Rhif y Dangosydd / Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS8 | Canran presenoldeb disgyblion mewn: | Percentage of pupil attendance in: |
| | (a) (a) ysgolion cynradd; a | (a) (a) primary schools; and |
| | (b) (b) ysgolion uwchradd. | (b) (b) secondary schools. |
| NS9 | Canran: | The percentage of: |
| | (i) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheini sydd yng ngofal awdurdod lleol); a | (i) all pupils (including those in local authority care); and |
| | (ii) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod lleol, | (ii) pupils in local authority care, |
| | sydd mewn yn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac yn gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | in any local authority maintained school aged 15 at the preceding 31 August and leave compulsory education, training or work-based learning without an approved external qualification. |
| NS10 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Asesiadau Athrawon. | The percentage of pupils, assessed at the end of Key Stage 2, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment. |

| Rhif y Dangosydd / Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS11 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Asesiadau Athrawon. | The percentage of pupils assessed at the end of Key Stage 3, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment. |
| NS12 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | The average point score for pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority. |
| NS13 | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf):<br>(i) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2; a<br>(ii) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. | The percentage of pupils assessed in schools maintained by the local authority, receiving a Teacher Assessment in Welsh (first language)<br>(i) at the end of Key Stage 2; and<br>(ii) at the end of Key Stage 3. |

SCHEDULE 4

WASTE MANAGEMENT INDICATORS

| Rhif y Dangosydd / Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS14 | Canran y gwastraff trefol:<br>(i) a ailddefnyddir ac/neu a ailgylchir; a<br>(ii) a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall. | The percentage of municipal waste:<br>(i) reused and/or recycled; and<br>(ii) composted or treated biologically in another way. |
| NS15 | Canran y gwastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. | The percentage of bio-degradable municipal waste sent to landfill sites. |

## SCHEDULE 5

## TRANSPORT/HIGHWAYS INDICATORS

| Rhif y dangosydd /Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS16 | Canran:<br>(a) (a) prif ffyrdd (dosbarth A); a<br>(b) (b) ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig<br>sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | The percentage of:<br>(a) (a) principal (A) roads; and<br>(b) (b) non-principal/ classified roads<br>in overall poor condition. |

## SCHEDULE 6

## PUBLIC PROTECTION INDICATORS

| Rhif y dangosydd/ Indicator number | Prif ddangosydd | Headline indicator |
|---|---|---|
| NS17 | Canran y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiadau wedi'u rhaglennu o ran:<br>(i) Safonau Masnach;<br>(ii) Hylendid Bwyd;<br>(iii) Iechyd Anifeiliaid; a<br>(iv) Iechyd a Diogelwch. | The percentage of high risk businesses liable to programmed inspections that were inspected as regards:<br>(i) Trading Standards;<br>(ii) Food Hygiene;<br>(iii) Animal Health; and<br>(iv) Health and Safety. |

## SCHEDULE 7

## ENERGY EFFICIENCY INDICATORS

| Rhif y dangosydd /Indicator Number | Prif ddangosydd | Headline Indicator |
|---|---|---|
| NS18 | (a) (a) Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon diocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig;<br>(b) (b) — | (a) (a) Percentage reduction in carbon dioxide emissions in the non-domestic public building stock;<br>(b) (b) — |

| **Rhif y dangosydd /Indicator Number** | **Prif ddangosydd** | **Headline Indicator** |
|---|---|---|
| | (i) Canran y gostyngiad yn y defnydd o ynni yn y stoc dai; a<br>(ii) Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon diocsid yn y stoc dai. | (i) Percentage reduction in energy use in the housing stock; and<br>(ii) Percentage reduction in carbon dioxide emissions in the housing stock. |

SCHEDULE 8

HOUSING BENEFIT AND COUNCIL TAX BENEFIT INDICATORS

| **Rhif y dangosydd /Indicator Number** | **Prif ddangosydd** | **Headline indicator** |
|---|---|---|
| NS19 | Yr amser a gymrwyd i brosesu hawliadau newydd a digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai (BT) a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor (BTG). | Time taken to process Housing Benefit (HB) and Council Tax Benefit (CTB) new claims and change events. |
| NS20 | Nifer y newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar hawl cwsmeriaid i gael Budd-daliadau Tai (BT) neu Fudd-daliadau Treth Gyngor (BTG) yn ystod y flwyddyn. | The number of changes of circumstances which affect customers' entitlement to Housing Benefit (HB) or Council Tax Benefit (CTB) within the year. |